

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF, BETWS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 9fed MAI, 2022.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad gan aelod o dim Adran Drwyddedu, Cyngor Sirol Bwrdeistref Conwy, cyn i'r pwyllgor ddechrau. Bu i'r cadeirydd ddiolch iddo am esboniad mor dryliw am waith a phrosesau yr Adran Drwyddedu.

2. YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr John EVANS; Hilda GIBBS; Glena HUMPHREY; D Gwyn JONES; Bryn JONES; Gethin OWEN; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; Hefin WILLIAMS; a'r Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

3. YMDDIHEURIADAU

Nid oedd unrhyw ymddiheuriad gan fod yr aelodau i gyd yn bresennol.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgofffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill, 2022. (Cynnig y Cynghorydd John D ROBERTS ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS)

6. MATERION YN CODI

'Roedd un o'r Cynghorwyr wedi cael cwyn gan un o drigolion yr ardal nad oedd cofnodion y pwyllgor diwethaf ddim wedi ei roi ar y wefan o fewn 7 diwrnod. Dywedodd y Clerc y byddai'n gofalu y byddai'r munudau ar y wefan yn gynt yn y dyfodol.

Dywedwyd hefyd nad oedd son wedi bod yn ddiweddar yn y Gadlas am waith a gweithgareddau y Cyngor. Dywedodd y Clerc y byddai yn atgyfodi'r arferiad.

Nid oedd unrhyw fater arall yn codi.

7. CYLLID

- a. Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Ebrill 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-
- Arian i Mewn = £2668.00 (Precept gan CBSC)
Arian Allan = £5.80 (Costau Banc - DR)
= £100.00 (Anrhegion Santa yn Betws yn Rhos - 200132)
= £20.00 (Hysbyseb yn y Gadlas - 200130)
= £861.69 (Cyflog y Clerc am y tri mis diwethaf – SO)
= £215.43 (Taliad i'r HMRC)
= £137.26 (Goleuadau Nadolig - trydanwr y Cyngor Sir – 200133)
Heb ei Cyflwyno = £200 (Apel Wcrain – 200134)
= £33.60 (Plaque)
Cyfrif Cymunedol = £10803.19
Cyfrif Busnes = £5,551.60
Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.
- b. Cododd anhawster gyda'r bancio ar lein pan ddefnyddwyd am y tro cyntaf. Diffyg ym mhroses y banc a fydd yn cael ei ddatrys yn y bythefnos nesaf.

8. GOHEBIAETH

- a. Ebyst gan gwmni yswiriant Zurich ynglun ac adnewyddu yswiriant y Cyngor.
- b. Ebyst i Adran Gynllunio y Cyngor Sir ynglun a'r Cais 0/49506 ac 0/49521
- c. Ebyst yn ol ac ymlaen gyda' Archwilwyr mewnol ac Archwilio Cymru.
- d. Ebyst yn ol ac ymlaen gyda Adran Priffyrdd a'r Amgylchedd, CSBC ynglun a Gwaith ffordd yn ardal Ty'n Ddol.
- e. Llythyr gan berchennog busnes lleol ynglun a'r Wyl Gerdd ar dir Coed Coch.
- f. Llythyr i Eglwys Betws yn Rhos ynglun a dychwelyd rhodd ariannol o'r gorffennol.

9. GRANTIAU

Dim ceisiadau newydd wedi ei derbyn.

10. CYNLLUNIO

- a. 12.21/12 (iv) 0/49181 Cais cynllunio 0/44848 (Adeiladu annedd, mynedfa a gwaith peirianyddol cysylltiedig): Plot 5 The Granary Cottages Betws Yn Rhos Abergele Conwy - Mr Barry McDowell. Dim gwrthwynebiad i'r cais ond roedd poeni am enw saesneg y lleoliad. Ateb gan yr Adran Drwyddedu: enw priodol y ty yw 5 Bryn Derw. Os yw'r perchnogion am ei alw yn rhywbeth arall nid yw hyn o fewn dylanwadau'r Adran Drwyddedu. Caiff y mater yma yn awr ei dynnu oddi ar yr agenda.

- b. 0/48681 Mr Enfys Parry, Oak Tree Farm, Ffynhonnau Road, Betws yn Rhos, Abergele LL22 8AB: Cadw a defnyddio carafan statig fel llety gwyliau – Cafodd y cais ei wrthod gan yr Adran Gynllunio, ond ar ol apel ac ymweliadgan arhwiliwr y Senedd cafodd ei gymeradwyo. Caiff y mater yma yn awr ei dynnu oddi ar yr agenda.
- c. 0/49368. Safle: Aelwyd Uchaf Cil Llidiart Road Betws Yn Rhos Conwy LL22 8AG – Fe oedd gwrthwynebiad i'r cynllun yma oherwydd ardrawiad gweledol; ar ffordd/llwybr treftadaeth; maint a mesur yr adeiladau wrth gysidro bodolaeth defnydd amaethyddol y tir. Disgwylir penderfyniad gan yr Adran Gynllunio.
- d. Cyfeirnod: 0/49506 Cynllun: Cais llawn i leoli stablau at ddefnydd preifat yn unig, gosod llawr caled yn atodol i ddatblygiad a mynedfa newydd o'r briffordd. Safle: Tir gyferbyn a Ffordd y Mynydd Betws-yn-Rhos Conwy Wales LL22 8FD. Fe oedd gwrthwynebiad i'r cynllun yma oherwydd diffyg gwybodaeth am ddefnydd hir dymor y cynllun. Disgwylir penderfyniad gan yr Adran Gynllunio
- e. 0/49554 Natur y Cais: Llawn; Cofrestrwyd: 08/04/2022; Natur y Datblygiad: Estyniad Datblygiad Bach; Dosbarth Etholiadol: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos; Lleoliad: Bethgeth Cil Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG; Cais: Codi arâe pv solar, a gwaith cysylltiedig. Dim gwrthwynebiad.
- f. Cais am drwydded i'r Adran Drwyddedu am ddigwyddiad/Gwyl o fiwsig am bedwar diwrnod, yn cynwys miwsig a gwerthu alcohol tan 3yb. a gweryslla ar dir Coed Coch, Dolwen, Betws yn Rhos Abergele LL228AY gan OK-EntertainmentLtd. Bydd y Cyngor yn gwrthwynebu y cais yma yn dilyn cwynion helaeth gan frodorion yr ardal ynnglun a'r tebygrwydd o swm hyd at oriau man y bore, trafniadaeth di-reol, ymddygiad gwaraidd, a'r tebygrwydd i ddigwyddiad cyffelyb yn ystod y cyfnod cloi yn yr un ardal. Y clerch i wneud nodion o'r gwrthwynebiaid ac i osod y cynrychioliaid ar y ffurflen briodol ynghyd ac is-grwp o'r pwyllgor ai yrru i'r Adran Gynllunio.

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Y Clerch yn awr wedi cwblhau y gwaith at Archwiliad Flynyddol 2022-2023, a fe oedd yr aelodau yn fodlon eu bod yn cael ei gyrru ymlaen at yr archwylwyr mewnol.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

- a. Doedd dim i'w drafod tan ar ol i'r Cyngor Sir Newydd gael ei roi yn ei le yn dilyn yr etholiad.
- b. Roedd cynghorwyr yn poeni nad oeddy gwaith cynnal a chadw ar Ffordd Llanellian o'i chyffordd gyda Ffordd Dolwen wedi cael ei ddechrau. Bydd ymholiadau yn cael ei gwneud gyda'r Adran Briffyrdd.

13. GOSOD PLAC – CYFLAWNIAD Ms GEORGIA WILSON

Mae'r plac wedi ei gyflawni a gyda'r Clerch. Bydd paratodau yn cael ei gwneud yn barod i'w roi fyny yn y ganolfan chwaraeon yn Mis Mehefin a'i ddad-orchuddio ar ddiwrnod dathlu y Jiwibili fel rhan o'r digwyddiadau.

14. JIWBILI PLATINWM Y FRENHINES

Bydd y coed sydd i'w plannu yn cael ei harchebu yn y dyfodol agos yn barod at ddathliad y Jiwibili ar y 5ed Mehefin 2022. Pan y derbynnir yr arian gan Eglwys Betws yn Rhos bydd ar gael i'w ddefnyddio tuag at yr achlysur.

15. ETHOLIADAU LLEOL

Yn dilyn yr etholiadau lleol ar Ddydd Iau y 5ed o Fai 2022 mae yn awr dri cynghowr newydd ar Gyngor y Gymuned. Cawsant ei croesawu ary Cyngor gan y Cadeirydd ar ddechrau y Cyfarfod Blynyddol a gymerodd le yn union o flaen y pwyllgor hwn. Mae yn awr ddeg o gynghorwyr yn cynyrchioli Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos.

16. ATGYWEIRIO'R FFYNNON AR Ffordd ABERGELE, BETWS YN RHOS.

Bydd angen edrych ar yr item yma eto cyn y pwyllgor nesaf.

17. TACLUSO O GWMPAS Y PENTREF.

Mae hyn yn awr ar gynlluniau sy'n cael ei rhoi at ei gilydd i ddigwydd yn flynyddol ar droad y gaeaf i'r gwanwyn. Mae un o'r cynghorwyr wedi gwirfoddoli i baentio y meinciau wrth ymyl y siop.

18. CYFARPAR CHWARAEON I BLANT IAU AR Y CAE CHWARAE.

Mae cais wedi ei wneud am arian i gyflawni hyn a disgwylir ateb cyn hir.

19. FFOADURIAID O'R WCRAIN.

Deallir for rhai ffoaduriaid wedi cyrraedd Bae Colwyn. Byddwn yn barod i edrych ar ffyrdd i roi cymorth ariannol ac ymarferol i rai fydd yn dod i ardal y Cyngor.

20. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. Penderfynwyd edrych ar wahanol gostau cael sgrin/monitor ar y wal yn y ddwy ganolfan sydd gyda camera wedi ei gynnwys oddifewn. Mae'r gwaith hyn yn parhau.

21. GORDYFIANT AR LONYDD GWYRDD A LLWYBRAU LLEOL

Mae'r Cynghorydd Sir yn ymweld ag aelod o'r gymuned i edrych ar un o'r lonydd gwyrddion i weld ehangder y broblem. Mae hyn yn rhan o archwiliad i faint ac ymhle oedd y lonydd a'r llwybrau hyn a gwneud dynesiad i'r Cyngor Sir amdanynt i gyd.

22. ARWYDD Ffordd HEN FFASIWN AR GORNEL PLAS YN BETWS A CAPEL BACH SION

Mae'r clerc yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael ail wneud arwydd yn yr un ffurf a'i ail-osod.

23. TREFNU NOSON O DDIOLCH I AELODAU A SWYDDOGION Y CYNGOR SYDD WEDI YMDDEOL YN DDIWEDDAR

Mae trefniadau yn cael ei gwneud.

24. UNRHYW FATER ARALL

Mae'r bord gwybodaeth cyhoeddus wrth ymyl Neuadd Bentref Betws yn Rhos angen sylw. Y Clerc i edrych i mewn i gost ei adnewyddu.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.35y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....